# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Mawrth 2023

Amser: 13.31 - 16.09

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13248

# Ar y safle

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>James Evans AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

Nid oedd dim ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

### 2.1 SL(6)328 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 3.1 SL(6)322 – Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 4 Fframweithiau cyffredin

### 4.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Fframwaith Cyffredin Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Diwygiadau i ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU i gefnogi Cydbwyllgorau Corfforaethol

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog.

### 5.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Dilyniant i'r cyfarfod ar 16 Ionawr 2023

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

**5.3 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

**5.4 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Dirprwy Weinidog.

**5.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Lywydd: Bil Hawliau**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidogion at y Llywydd.

**5.6 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

**5.7 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Llywydd: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Lywydd, a chytunodd i ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol ynghylch memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol pellach.

**5.8 SL(6)325 – Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd i godi nifer o faterion.

## 6 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafodd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 9 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): canlyniad Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 10 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memoranda Rhif 3, Rhif 4 a Rhif 5) ar y Bil Diogelwch Ar-lein

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol): Nodyn Cyngor Cyfreithiol

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunodd i drafod adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 12 Blaenraglen waith

Trafododd y Pwyllgor faterion yn ymwneud â'i flaenraglen waith.